**Regional Economic Crime Unit (Wales).**
**South Wales Police**
**Police Headquarters**
**Cowbridge Road**
**Bridgend**
**CF31 3SU**
***Tel. 01656 655555***

**Unedd Trosedd Economaidd Ranbarthol (Cymru)**
**Heddlu De Cymru**
**Pencadlys yr Heddlu,**
**Heol y Bont-faen**
**Penybont**
**CF31 3SU**
***01656 655555***

Annwyl Rieni,

Rydym yn cynnal sesiwn i godi ymwybyddiaeth o bobl ifanc sy'n cael eu defnyddio gan droseddwyr i ddod yn 'Fulod Arian'.

Ein nod yw atal myfyrwyr rhag dod yn fulod arian drwy eu haddysgu am yr hyn y mae'r term yn ei olygu, sut mae troseddwyr yn gweithredu a pham eu bod yn eu targedu. Byddwn hefyd yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ganlyniadau difrifol dod yn rhan o'r cynlluniau hyn.

**Gall pobl o unrhyw oedran ddod yn rhan o gynllun o'r fath heb wybod eu bod yn gwneud hynny, ond mae troseddwyr yn mynd ati'n amlach i dargedu pobl ifanc i'w recriwtio.**

Fel rhan o hyn, rydym am roi gwybodaeth i rieni i'w helpu i ddeall ystyr mulod arian, pa arwyddion i gadw golwg amdanynt a sut i ddiogelu eich plant rhag dod yn rhan o gynllun o'r fath.

**Beth yw Mul Arian?**

Mae mul arian yn rhywun y gofynnir iddo gan drydydd parti i dderbyn arian i'w gyfrif banc a'i drosglwyddo i gyfrif arall, ei godi o'r banc neu ei ddefnyddio i brynu pethau. Mae'n ddull a ddefnyddir gan y rheini sy'n cyflawni troseddau i dderbyn yr enillion mewn ffordd sy'n atal asiantaethau gorfodi'r gyfraith rhag gwybod pwy ydynt. Yn aml, gwneir cynnig i ddeiliad y cyfrif gadw rhywfaint o'r arian iddo'i hun. Enillion troseddau yw'r arian a geir ac a drosglwyddir.

**Sut y caiff pobl ifanc eu recriwtio i ddod yn ful?**

Yn aml, ni fydd ein plant yn gwybod eu bod yn cyflawni trosedd drwy weithredu yn y fath fodd, ond os byddant yn caniatáu i'w cyfrif banc gael ei ddefnyddio, gellid dehongli'r weithred hon fel cymryd rhan mewn achos o dwyll neu wyngalchu arian ac mae hyn yn drosedd.

Yn aml, cânt eu denu drwy gynnig hawdd i wneud arian, a chaiff pobl ifanc eu targedu drwy grwpiau cyfeillgarwch a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

Weithiau, gofynnir iddynt a ydynt am wneud ychydig o arian mewn ffordd gyflym a hawdd, a'r cyfan y bydd angen iddynt ei wneud fydd derbyn arian a'i anfon ymlaen. Ar adegau eraill, gall rhywun ofyn iddynt a all fenthyg eu cyfrif, ac mae'n bosibl na fyddant hyd yn oed yn gwybod beth mae'r person hwnnw sy'n defnyddio eu cyfrif yn ei wneud.

**Pwy sy'n gofyn iddynt wneud hyn?**

Mae'r bobl sy'n gofyn i rywun wneud hyn yn cael eu galw'n 'fugeiliaid mulod' ac maent yn aml yn rhan o rwydwaith llawer mwy o droseddwyr cyfundrefnol. Mae'r arian sy'n cael ei drosglwyddo yn gysylltiedig â throseddau a chaiff ei drosglwyddo drwy gyfrif trydydd parti er mwyn cuddio manylion yr unigolion sy'n cyflawni'r drosedd.

Gellir defnyddio'r broses hefyd i wyngalchu arian i'w ddefnyddio ar gyfer troseddau difrifol eraill fel troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau a masnachu mewn pobl. Dyna pam ei fod yn fater difrifol.

**Beth i gadw golwg amdano a sut i ddiogelu eich plentyn.**

- Hysbysebion 'Gwneud arian cyflym' ar y cyfryngau cymdeithasol. Os yw'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, wedyn fwy na thebyg nad yw'n wir. Gwnewch yn siŵr bod eich plant yn gwybod nad yw'r hysbysebion y byddant o bosibl yn eu gweld ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd dilys o ennill arian, er y byddant o bosibl yn edrych yn ddilys.
- Gwrandewch am y termau Saesneg 'Deets and Squares' neu 'Fullz' (slang am wyngalchu arian a thwyll) a gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn gwybod na ddylai roi ei fanylion banc i unrhyw un na chaniatáu i unrhyw un ddefnyddio ei gyfrif, hyd yn oed am ychydig funudau.
- Arwyddion bod eich plentyn yn gwario symiau anarferol o arian. A yw wedi prynu rhywbeth newydd na allai ei fforddio â'i arian poced? A yw'n gwario arian nad ydych yn ymwybodol o ble y daeth yr arian hwnnw?
- Newidiadau o ran ymddygiad eich plentyn. Weithiau, unwaith y byddant wedi dod yn rhan o gynllun gwyngalchu arian, mae'n bosibl y caiff ei orfodi neu ei fygwth i wneud hynny eto. A yw'n dod yn fwy cyfrinachol nag arfer? A yw'n poeni am fynd allan?
- Edrychwch ar gyfriflenni banc eich plentyn gydag ef/hi a gwnewch yn siŵr y gallwch esbonio pob trafodyn.

**Beth yw canlyniadau cymryd rhan mewn cynllun gwyngalchu arian i bobl ifanc?**

Bydd ar eu cofnod credyd gan arwain at y canlynol:

- Caiff y cyfrif banc a ddefnyddiwyd ei gau a bydd yn anodd agor cyfrif arall gydag unrhyw sefydliad ariannol arall ar ôl hynny.
- Bydd yn anodd cael contract ffôn
- Problemau wrth gael benthyciad myfyriwr/gwneud cais am gredyd/cael morgais yn ddiweddarach mewn bywyd
- Ni fyddant yn gallu cael fisa ar gyfer gwledydd fel UDA ac Awstralia gan y bydd ganddynt gofnod troseddol
- Carchar am hyd at 14 o flynyddoedd

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn

[www.moneymules.co.uk](http://www.moneymules.co.uk)